**Ymateb y Llywodraeth: Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 16) (Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam) 2020**

Dyma ymateb y Llywodraeth i adroddiad drafft y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad dyddiedig 7 Hydref 2020.

**Pwynt Craffu ar Rinweddau 1(a):**

Roedd y data ar 28 Medi yn dangos tuedd gynyddol yng nghyfraddau treigl digwyddedd COVID-19 dros 7 niwrnod ar draws ardaloedd awdurdodau lleol yng Ngogledd Cymru. Darperir crynodeb o holl achosion COVID-19 a gadarnhawyd rhwng 20 a 27 Medi 2020, fesul Awdurdod Lleol, isod.

***Mae'r tabl hwn yn crynhoi achosion a phrofi, pan fo samplau wedi eu casglu yn ystod y cyfnod o 7 niwrnod uchod.***

| Am y cyfnod o 7 niwrnod a ddaeth i ben am 23:59 ar 27-09-2020 | n | % o Gyfanswm Cymru Gyfan | Digwyddedd 7 niwrnod |
|---|---|---|---|
| Blaenau Gwent | 192 | 8.3% | 274.8 |
| Caerffili | 93 | 4.0% | 51.4 |
| Sir Fynwy | 18 | 0.8% | 19.0 |
| Casnewydd | 90 | 3.9% | 58.2 |
| Torfaen | 48 | 2.1% | 51.1 |
| Aneurin Bevan | 441 | 19.1% | 74.2 |
| Conwy | 54 | 2.3% | 46.1 |
| Sir Ddinbych | 36 | 1.6% | 37.6 |
| Sir y Fflint | 84 | 3.6% | 53.8 |
| Gwynedd | 18 | 0.8% | 14.5 |
| Ynys Môn | 7 | 0.3% | 10.0 |
| Wrecsam | 59 | 2.6% | 43.4 |
| Betsi Cadwaladr | 258 | 11.2% | 36.9 |
| Caerdydd | 319 | 13.8% | 86.9 |
| Bro Morgannwg | 55 | 2.4% | 41.2 |
| Caerdydd a'r Fro | 374 | 16.2% | 74.7 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 157 | 6.8% | 106.8 |
| Merthyr Tudful | 129 | 5.6% | 213.8 |
| Rhondda Cynon Taf | 444 | 19.2% | 184.0 |
| Cwm Taf Morgannwg | 730 | 31.6% | 162.7 |
| Sir Gaerfyrddin | 126 | 5.5% | 66.7 |
| Ceredigion | 17 | 0.7% | 23.4 |
| Sir Benfro | 11 | 0.5% | 8.7 |
| Hywel Dda | 154 | 6.7% | 39.8 |
| Powys | 29 | 1.3% | 21.9 |
| Powys | 29 | 1.3% | 21.9 |
| Castell-nedd Port Talbot | 76 | 3.3% | 53.0 |
| Abertawe | 247 | 10.7% | 100.0 |
| Bae Abertawe | 323 | 14.0% | 82.8 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cyfanswm | 2309 | 100.0% | 73.2 |

Mae ein penderfyniadau wedi eu seilio ar wybodaeth leol. Cyflwynwyd y cyfyngiadau ar gais Tîm Rheoli Digwyddiadau Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr a gododd, ar 29 Medi, bryder ynghylch y duedd gynyddol yng nghyfraddau treigl digwyddedd COVID-19 dros 7 niwrnod ar draws pedair ardal awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru, gan gynnwys Bwrdeistref Sirol Conwy. Argymhellodd y Tîm Rheoli Digwyddiadau y dylid dilyn dull rhagweithiol ac ataliol. Y cais gan y Tîm Rheoli Digwyddiadau oedd i Lywodraeth Cymru gyflwyno cyfyngiadau a oedd yn cyfateb i'r rheini ar gyfer Ardaloedd Diogelu Iechyd Lleol yn Ne Cymru. Yn dilyn galwad ag arweinwyr awdurdodau lleol ac awdurdodau cyhoeddus, derbyniodd Llywodraeth Cymru eu hargymhelliad i roi yn eu lle Ardaloedd Diogelu Iechyd Lleol yng Nghonwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam.

Ar adeg ysgrifennu, mae'r cyfraddau digwyddedd a phositifedd profion wedi cynyddu ers hynny ym mhob un o'r ardaloedd hyn yn ôl data Iechyd Cyhoeddus Cymru. Yng Nghonwy, y gyfradd digwyddedd dros 7 niwrnod (hyd at 5 Hydref) yw 63.1 o bobl am bob 100,000, sef cynnydd o 20 pwynt bron ers penderfynu cyflwyno cyfyngiadau. Yn Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam, mae'r cyfraddau digwyddedd yn uwch na 100 erbyn hyn, gyda rhai o'r cyfraddau cyffredinrwydd uchaf yng Nghymru.

**Pwynt Craffu ar Rinweddau 1(b):**

Mae'r trywydd cynyddu yn yr achosion uchod yn dangos ac yn cyfiawnhau'r angen i reoliadau ddod i rym cyn gynted â phosibl.

**Pwynt Craffu ar Rinweddau 1(c):**

Ar y pryd, nid oedd y data uchod na'r Timau Rheoli Digwyddiadau yn y chwe awdurdod lleol nad oeddent mewn Ardaloedd Diogelu Iechyd Lleol o blaid mynd i gyfyngiadau lleol gan y byddai hyn wedi bod yn anghymesur.